



CYNGOR TREF CAERFYRDDIN – DATGANIAD I'R WASG

CYNGOR TREF CAERFYRDDIN YN ENNILL CHWECH GWOBR CENEDLAETHOL

Mae Cyngor Tref Caerfyrddin wedi cael ei gydnabod yn ffurfiol am wasanaeth rhagorol mewn nifer o gategoriâu yn stod Cynhadledd Flynyddol Un Llais Cymru¹ a gynhaliwyd yn Llanfair-ym-Muallt ar 29 Mawrth.

Gwnaethpwyd cyflwyniadau gan Gyngor Tref Caerfyrddin mewn chwech o'r deg categori, a'r canlyniadau fel a ganlyn:

1. Prosiect Dreftadaeth Gorau (Ailddatblygu Felodrom Caerfyrddin) - **1af**
2. Menter Gynaliadwyedd Gorau (Cynllun Grantiau Fferm Red Court) - **1af**
3. Prosiect Amgylcheddol Gorau (Cynllun Grantiau Fferm Red Court) - **1af**
4. Menter Ymgysylltu Cymunedol Gorau (Cyfryngau cymdeithasol - defnyddio Twitter, Facebook ac Instagram) - **Cymeradwyaeth Uchel**
5. Cyngor Lleol Gorau (Ystafell Te Caerfyrddin a Rhaglen Digwyddiadau Haf) - **Cymeradwyaeth**
6. Adroddiad Blynyddol Gorau – **Cymeradwyaeth**

Meddai'r Cynghorydd Ken Lloyd, sy'n cynrychioli Cyngor Tref Caerfyrddin ar Un Llais Cymru:

'Rwy'n hynod o falch fy mod wedi gallu cynrychioli Cyngor Tref Caerfyrddin gyda Mr Huw Thomas, Swyddog Parciau, yn y seremoni ac i dderbyn y gwobrau hyn. I gael cydnabyddiaeth fel un o'r cyngorau lleol mwyaf blaenllaw yng

¹ Un Llais Cymru yw'r sefydliad cynrychioliadol cenedlaethol ar gyfer Cyngorau Cymuned a Thref ledled Cymru. Ar hyn o bryd mae yna dros 600 o gyngorau mewn aelodaeth, sy'n cynrychioli tua 82% o'r holl gyngorau cymuned a thref yng Nghymru.

Nghymru, mae'n dweud llawer am waith y Cyngor a'r tîm bach o staff sy'n darparu'r gwasanaeth i bobl leol'

Meddai'r Cynghorydd Alun Lenny, Maer Caerfyrddin:

'Fel Maer Caerfyrddin, rwyf wrth fy modd bod llawer o'r gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor Tref wedi'u cydnabod yn genedlaethol fel hyn a gall pobl y dref fod yn falch iawn o'u cyngor tref lleol. Byddwn yn sicr yn mwynhau'r gydnabyddiaeth hon ond rydym yn gweithio i wella'n gwasanaethau'n barhaus a byddwn yn cychwyn ar ymgynghoriad cyhoeddus yn ddiweddarach eleni, er mwyn i bobl leol ein helpu ni i benderfynu ar ein blaenoriaethau yn y dyfodol a dylanwadu ar yr hyn maen nhw am i ni ei wneud er lles y dref a chymunedau lleol '.

Mae prif ddyletswyddau Cyngor Tref Caerfyrddin yn cynnwys:

- Rheoli Parc Caerfyrddin a'r holl ddigwyddiadau sy'n cymryd lle yno, gan gynnwys y felodrom a ailddatblygwyd yn ddiweddar, y cae rygbi sy'n gartref Clwb Rygbi Quins Caerfyrddin, a'r siop de
- Cefnogi sefydliadau lleol gyda grantiau ariannol a mathau eraill o gymorth
- Rheoli Neuadd Ddinesig San Pedr a'i gwneud ar gael i'w ddefnyddio gan y cyhoedd mor aml ag sy'n bosibl
- Rheoli a chynnal y cyfleusterau hamdden ym mharciau cyhoeddus a mannau chwarae eraill y dref - Parc Penllwyn, Parc Tre Ioan, Parc Hinds a Heol Rudd
- Rheoli a chynnal Mynwent Tref Caerfyrddin
- Addurno'r dref gyda basgedi crog ac arddangosfeydd blodau eraill yn ystod yr haf
- Paratoi a chynnal y goleuadau Nadolig yng Nghaerfyrddin bob blwyddyn a rhedeg gweithgareddau 'cynnau' goleuadau Nadolig a Pharêd y Ceirw trwy'r dref
- Rhedeg a chynnal Ras Blynyddol y Maer ar Gwyl y Banc Mis Mai
- Adolygu ceisiadau cynllunio a dderbyniwyd gan y Cyngor Sir mewn perthynas â Thref Caerfyrddin a gwneud argymhellion amdanynt
- Ystyried ceisiadau trwyddedu mewn perthynas â safleoedd trwyddedig ac oriau agor

- Asesu rhai cynigion ffyrdd a phriffyrdd fel cau strydoedd neu gyfyngiadau parcio
- Hyrwyddo Masnach Deg a mesurau eraill i wella datblygiad cynaladwyaeth a'r amgylchedd
- Mae Cyngor Tref Caerfyrddin hefyd yn aelod annatod o Fforwm Adfywio Tref Caerfyrddin a sefydlwyd ym mis Hydref 2013 i ddarparu pwynt cyswllt cryf rhwng Cyngor Sir Gaerfyrddin a rhanddeiliaid allweddol y dref o ran datblygu a chyflwyno cynlluniau yn y dyfodol i dyfu economi'r dref.

Mae Cyngor Tref Caerfyrddin yn derbyn y cyfrifoldeb o wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Caerfyrddin trwy weithredu, yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, gyda'r nod o gyflawni nodau 'Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol', sef: Cymru sydd yn ffynnu, Cymru gydnerth, Cymru sy'n fwy cyfartal, Cymru iachach, Cymru o Gymunedau Cydlynus, Cymru â ddiwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, a Chymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

Yn ogystal â'r uchod, mae'r Maer yn ymgymryd â channoedd o ymweliadau â gwahanol sefydliadau a phobl trwy gydol y flwyddyn fel rhan o'i gyfrifoldeb dinesig, yn aml hefyd yn eu helpu yn ariannol.

Mae Cyngor y Dref yn cynnwys deunaw Aelod² (Cynghorwyr) sy'n cwmpasu tair Ward³. Mae gan Ward y Gogledd saith Aelod, Ward y De pump Aelod, a Ward y Gorllewin chwech aelod. Mae'r Cyngor yn ethol Maer, Dirprwy Faer a Siryf bob

² Ar hyn o bryd mae Cyngor y Dref yn cynnwys 12 aelod Plaid Cymru, 5 aelod Llafur ac un Annibynnol.

³ Mae Ward y Gogledd yn cwmpasu'r rhan fwyaf o'r ardaloedd yn y dref i'r gorllewin o linell o Rhodfa'r Pisgwydd i Heol y Dŵ ond i'r gogledd o Stryd Catherine a Waun Dew, gan gynnwys Pentrefelin, Russell Terrace a Park Hall. Mae hefyd yn cynnwys ardaloedd Tanerdy, Heol Bronwydd ac Ysbyty Glangwili. Mae gan Ward y Gogledd 7 Cynghorydd Tref.

Mae Ward y De yn cynnwys yr ardaloedd hynny i'r de o Heol y Gwyddau/ Waun Dew a Stryd y Priordy, a hefyd Tre Ioan a Llanllwch Mae gan Ward y De 5 Cynghorydd Tref.

Mae Ward y Gorllewin yn cynnwys Travellers Rest, Pentremeurig, y Drindod Dewi Sant, Bro Myrddin, Ffordd y Coleg, Ffordd y Sycamorwydden a'r ardal i'r gorllewin o Heol y Dŵr a Rhodfa'r Pisgwydd, hyd at Trefechan. Mae gan Ward y Gorllewin 6 Cynghorydd Tref.

blwyddyn, ac fe'i cefnogir gan dîm darparu gwasanaeth sy'n cynnwys 19 o weithwyr gweithredol a gweinyddol.

Mae'r Cyngor yn gweithredu ar strwythur pwyllgor gyda'r tri prif elfen yn Bwyllgorau Dibenion Cyffredinol, Cyllid a Rheolaeth. Mae'r holl Bwyllgorau'n adrodd i'r Cyngor Llawn, sy'n cwrdd yn gyhoeddus ar y dydd Mercher olaf ym mhob mis (ac eithrio mis Awst).



Y Cynghorydd Ken Lloyd a Mr Huw Thomas, Swyddog Parc Caerfyrddin yn derbyn un o'r gwobrâu yng Nghynhadledd Un Llais Cymru.



Maer Tref Caerfyrddin y Cyngorydd Alun Lenny a'r Cyngorydd Barchedig Tom Defis yn cyflwyno grant yn ystod noson wobrwyo Cyngor Tref Caerfyrddin.

Alun J Harries - Clerc, Cyngor Tref Caerfyrddin
6ed Ebrill 2018